

# Rhyngu dy fodd

“...ie, O Dad, oherwydd felly y rhyngodd dy fodd di.” (adn. 26)

## Beth am ddarllen Mathew 11:25–30 ac yna myfyrio

Yr ydym yn sylwi nad yw'n ofid cyson i'r saint eu bod heb ddeall holl fwriadau ewyllys Duw. Maent yn dymuno bod yn ufudd. Yn ystod y ddeunawfed ganrif yn y cyfnod yr adnabyddir fel y 'Yr Oes Oleuedig', fe feirniadwyd Cristnogion am ystyried rheswm dynol, hyd yn oed ar ei orau, fel llinyn mesur amhriodol. Mae rheswm bob amser eisiau ateb i'r cwestiwn 'Pam?' Am y duwiol, eu diddordeb hwy yw adnabod ewyllys yr Arglwydd yn hytrach na gwybod pam fod yr Arglwydd wedi caniatáu rhywbeth o fewn ei ewyllys ei hun. Mae gennyf gyfaill, ac i bob golwg mae duwioldeb yn gymaint rhan o'i gymeriad. I'r person hwn, pan ddaw anawsterau yn ei fywyd, ei ymateb naturiol bob amser yw sut mae cydweithio gyda Duw er mwyn troi'r gwaethaf i fod y gorau.

Mae'r syniad y dylem ystyried rhinwedd unrhyw orchymyn y mae Duw yn ei osod ger ein bron o ran ei fanteision cyn ufuddhau, yn wrthyn i'r syniad o fod yn ddisgybl. Efallai ein bod am ddefnyddio ein rheswm mewn anawsterau, er mwyn sicrhau ein bod yn glir ynglŷn â beth yw ewyllys Duw. Ond unwaith y byddwn wedi adnabod ei ewyllys, yr ydym yn dymuno ufuddhau i'r gorchymyn. Ond ni ddylem byth gwestiynu'r gorchymyn. Efallai y daw anhawster, ond pwy a wŷr pa fendithion sydd yn cael eu cuddio hyd yn oed yn yr anawsterau hynny. Mae'n bywyd ni yn nwylo Duw sydd â'i ofal trugarog, sydd â'i ddeheulaw cariadlon yn cael eu hestyn atom yn wastad. Ymhob digwyddiad, fe ddywed y duwiol: "Ie, O Dad, oherwydd felly y rhyngodd dy fodd di."

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Gen. 22:1–19;

Salm 146:1–10

Heb. 11:17–19

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam fod Abraham yn barod i aberthu ei fab?
2. Pam na ddylem ni roi ein holl ymddiriedaeth mewn arweinwyr dynol?

## Gweddi

O Dad, rwy'n sylweddoli fy mod wedi fy mwriadu ar gyfer dy ewyllys di. Ti yw fy mywyd a thi yw fy ffordd o fyw. Caniatâ i mi gerdded gyda thi bob dydd o'm bywyd. Yn enw Iesu. Amen.